

Llên natur

Bwletin 156

Chwefror 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach,
adnodd i blant, athrawon a rhieni,
ar y dudalen gefn



Llun Iona Lyn Hughes
9 Ionawr 2021
“Rhêw yn Porthdinllaen bora 'ma”
(Cymuned Llên Natur)

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**


Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

(Rhif elusen: 1126027) **Cymdeithas**



Traethiad chwysigod môr prin

TRAETHIAD CHWYSIGOD MÔR 17-22 Tachwedd 2020



Traethiad chwysigod môr prin ar y glannau - ond pa lannau?

Dyma fap sydyn i ddangos lle cafodd y CHWYSIGOD MÔR *Physalia physalis* (Portuguese Man o'War) eu traethu dros penwythnos 17-22 Tachwedd eleni. Daeth pob cofnod o Gymuned Llên Natur. Sylwch fel mae nhw'n dilyn arfordir y gorllewin. Mae prif-lythrennau'r cofnodwyr, ynghyd a'r dyddiad y'u gwelwyd, wrth rhifau'r cofnodion yn y tabl. **Llun 2 SM**

Mae'n bosib damcaniaethu'n gryf mai gwyntoedd o'r gorllewin a'u cludodd i'n traethau (ond nid POB gwynt gorllewinol sy'n gwneud hynny - pam hwn yn arbennig?). Dyma'r sefyllfa synoptig ar y 17 Tachwedd pan fu i'r chwysigen fôr gyntaf ymddangos. **Llun 3**

Cyhoeddwyd nifer o rybuddion yn y wasg Gymreig am beryglon tentaclau'r y chwysigod hyn o'u cyffwrdd. Y cyngor yw i geisio cymorth meddygol mor fuan a phosib.

Pa mor brin ydyn nhw? Y tro diwethaf i un ddod i sylw Llên Natur oedd y 2 Chwefror eleni ar Ynys Enlli pan welodd Mari Huws (un?) "*Portuguese man 'o war* [*Physalia*] [atododd Mari lun da] wedi golchi fyny ar Ynys Enlli heddiw! ... A hwyf fôr (*Verella*) hefyd".

Nododd Richard Neale iddo weld ar y 5ed Chwefror "miloedd o swigod tryloyw yn arnofio heibio ar y llanw heno ma ger Porthmeirion. Cymerais mai plastig oeddynt i ddechrau, ond mi gofiais am bostiad diweddar Mari o Enlli am *Verella* ("by the wind sailor"). Yn anffodus, roeddynt yn rhy bell o'r lan i'w gweld yn iawn. **Llun 1**

Mae'r disgrifiad o 'swigod' yn awgrymu mai chwysigod môr oeddynt.

● **Awst 2011:** Adroddodd y Daily Post am "outbreak of Portuguese Man of War (a jelly like marine invertebrate) has...been reported on beaches in southwest France" ar y 27 Awst 2011.

● **Medi 2009:** Chwysigod môr [*Portuguese Man o'war*] yn ddiweddar [1? Medi 2009]? Amryw wedi golchi i'r lan yn yr wythnosau dwytha. Mi ges i hyd i damaid o un ar draeth Cricieth rhyw bythefnos yn ôl.

Rhys Jones

Yn ôl Y Cymro 4 Medi 2009: "Mae Cyngor Ynys Môn yn rhybuddio pobl i fod yn wylidwrus ar draethau'r ynys wedi i'r Chwysigen Fôr wenwynig, neu'r Portuguese Man o'war gael ei ddarganfod...oddeutu 50 ohonynt ddechrau'r wythnos [c. 1 Medi] ar sawl traeth gan gynnwys Porthdafarch, Porth-y-Post, a Rhoscolyn. Yr wythnos ddiwethaf [ddiwedd Awst] darganfuwyd un ar draeth Cricieth..ac mae sawl un wedi cael eu gweld yn Sir Benfro yn ystod yr haf".

Roedd y gwyntoedd yn chwythu'n ysgafn o'r gorllewin ar 1 Medi 2009.

Llên Natur



● **Hydref 1954:** Cofnododd y cylchgrawn *Natur in Wales* am y PORTUGUESE MAN-OF-WAR (*Physalia*) gan ddweud: "In autumn 1954 numerous specimens of this unusual jelly-fish were washed up on the shores of South Wales and Cardigan Bay, as well as on the coasts of Southern England. The Portuguese Man-of-War normally inhabits warmer seas than ours, but since it is equipped with a crested bladder which floats on the surface its fleets are liable to drift to Britain from warmer parts of the Atlantic given persistent south-west winds. *Physalia* is very beautiful when alive but fades quickly after death. The bladder, mainly a brilliant, translucent blue, is

iridescent with orange, pink and purple, and is up to 6 in. long. Below it hang polyps adapted to various purposes: stinging and holding prey, digestion and reproduction. The fishing tentacles may be several feet long, can capture small fish and inflict a serious sting on man (as one of our Carmarthen members recently discovered!). Records received from the Welsh coast were:

Merioneth: Several at Llanbedr, 8th December. (Mrs. H. M. Golding PER F. R. P. Stringer). 2 in the Dovey Estuary 12th November (E. Williams PER Dr. E. E. Watkin). One at Aberdovey 20th November (E. H. T. Bible). 3 at Aberdovey 27th November (R. T. Owen PER Dr. E. E. Watkin). 2 taken from the sea 2 miles off Aberdovey 4th December (A. R. Clayton PER Dr. E. E. Watkin). *Carmarthenshire*: About 50

on Laugharne Sands 31st October (J. F. Thomas). 2 on Gwendraeth Estuary 29th October (W. G. Luton). *Pembrokeshire*: 7 at Skokholm, one at Broadhaven and one at Marloes (J. H. Barrett). One at Saundersfoot 21st November (Miss B. Griffiths). Roedd gwyntoedd de-orllewin morol yn codi ar draws de Prydain yn y cyfnod hwn.

Llên Natur



Synoptig ar y 17 Tachwedd

Defaid Cadw gan Gwilym Morris Jones

■ **Roedd ffair Gŵyl y Grôg Caernarfon yn boblogaidd iawn yn yr amser a fu.** Dyma pryd y byddai ffermwyr llawr gwlad yn cyfarfod â 'hogia'r defaid bach' o'r mynyddoedd, neu y 'fisitors' fel y gelwid hwy yn ardaloedd Eifionydd, i drafod telerau a 'tharo bargaen' ar gyfer rhentu tir pori dros y gaeaf. Byddai'r dadlau rhwng y ddwy ochr ar brydiau yn danllyd a ffyrnig, yn enwedig pan fyddai ffermwr o'r tir isel yn mynnu dal am bris afresymol ac yn gwrthod ildio.

Mae'n wir dweud i'r rhai mwyaf penboeth a byr eu tymer herio'i gilydd yn fygythiol hyd yn oed at daflu dyrnau. Clywais ddweud i fy nhaid ddod adre o'r ffair tua'r flwyddyn 1914 wedi cael andros o sioc tra'n bargeinio â ffermwr am dir pori'r gaeaf. Roedd y dyn yn dal am bedwar swllt a chwe cheiniog (4s/6d) y tymor, ac yn gwrthod gosod am lai. Roedd fy nhaid wedi arfer cael y lle am dri swllt a chwe cheiniog (3s/6d). Codiad o swllt mewn blwyddyn, swm sylweddol yr adeg honno.

●●● **Ar y tren o Afonwen i Chwilog y deuai llawer o'r ffermwyr llawr gwlad i'r ffair.** Llauer ohonynt wedi hel i'r un cerbyd i drafod prisiau ar faint o rent i'w godi ar y 'fisitors'. Taerai rhai ymysg ei gilydd gan fynnu bod hwy yn haeddu mwy o dâl na'r lleill gan, yn un peth, fod ganddynt lawer fwy o aceri. Roedd hyn yn golygu mwy o borfeydd ac felly mwy o fwyd ar gyfer y defaid cadw. Yn ystod y dadlau clywyd ambell 'weipan' sbeitlyd yn cael ei thafu fel, "Ylwch! 'Dach chi fel gelen ddeuben yn trio sugno gwaed oddi ar hen gi!" neu 'Gawsoch chi hyd i'r cryman hwnnw oeddech wedi ei golli y llynedd?'.

●●● **Ar ddiwrnod y ffair deuai 'fisitors' y tir uchel,** ardaloedd fel Nant Peris, Llanberis, Deiniolen, Waunfawr a Betws Garmon i lawr i'r dref i gyfarfod â'r ffermwyr llawr gwlad i drafod a bargeinio. Yn y tafarnau y byddai llawer yn cwrdd gan, efallai, y byddai'n haws yr adeg honno gytuno a 'tharo bargaen' wedi cael dipyn o 'olew ar y cocos'.

●●● **Dyddiau Diolchgarwch y byddai'r 'defaid bach', neu'r 'defaid cadw' yn symud** i fwrw'r gaeaf cyn dychwelyd i'r ucheldiroedd yr wythnos gyntaf yn Ebrill. Nid mewn lori fodern fel y mae heddiw y cludwyd hwy, ond drwy gerdded ffyrdd caled a throellog. Golygai hyn daith hir a blinedig, yn enwedig i ardaloedd fel Eifionydd fel Bryncir, Llanybi, Llanarmon a Chwilog. Un peth oedd mai gwaith sychedig iawn oedd cerdded y lôn bost, a rhaid oedd cael ambell saib ar hyd y ffordd i gael tropyn i wlychu ychydig ar y gwddw. Tri lle pwysig y pryd hynny fyddai'r 'Inn' Pantglas, 'Brynkir Arms' a'r 'Goat' Glandwyfach. Byddai amaethwyr Eifionydd yn dod i gyfarfod y 'fisitors' i'r lleoedd hyn ac, ar ôl rhyw ddyferyn go helaeth o'r 'wermod'

a thamaid i'w fwyta, mynd am y stesion i ddal y trê'n am adre. Wrth i'r trê'n gychwyn byddai'r rhan fwyaf wedi syrthio i gysgu, yn ogystal â'r hen gwn defaid ffyddlon wrth eu traed ar ôl diwrnod caled o waith. ...Deuai'r 5ed o Ebrill yn fuan i hogia'r mynydd, ond nid mor fuan i hogia'r gwaelodion.

●●● **Ffair arall bur bwysig fyddai Ffair Aeaf Caernarfon,** fyddai'n cael ei chynnal ar y Gwener a'r Sadwrn cyntaf ym mis Rhagfyr. Ffair anifeiliaid fyddai ar y dydd Gwener gyda chadwyn fawr wedi ei gosod o gylch y Maes rhag i'r gwartheg faeddu'r pafin. Cyn gynted ag y byddai'r ffair drosodd, deuai gweithwyr y 'Corporation' i'r golwg gyda 'car dŵr' a 'brws troi' arno yn cael ei dywys gan geffyl. Peiriant hwylus yr adeg honno i olchi a glanhau lle byddai ambell fuwch wedi codi'i chynffon.

●●● **Drannoeth, ffair tipyn o bopeth oedd yn cael ei chynnal, a'r Maes yn llawn stondinau.** Deuai llawer o chwarelwyr o ardaloedd Llanberis, Deiniolen a'r Waunfawr i lawr i'r dre ac i Neuadd y Farchnad ('Yr Hôl').



Griffith Evans a'i ddefaid
Defaid Griffith Evans Drws-y-Coed Uchaf a'i ddau gi yn anfon y defaid heibio'r Hen Stabal dros y ffordd i'r Hen dŷ. Car Y Faenol welir yn y llun. Y flwyddyn 1924. **Llun a chapsiwn Elinor Roberts**

Yn y fan honno y byddai menyng yn cael ei werthu, 'menyn pot' o wahanol ffermydd wedi ei hel yn ystod yr haf ar gyfer y ffair. Gosodwyd mydylau o'r menyng wyneb yn isaf ar y cownter, gyda'r gwerthwr yn cymell y cwsmer i flasau. Byddai bargeinio caled yn dilyn, a phan fyddai un wedi ei blesio a chael menyng da, byddai'n gofyn i'r masnachwr gadw pot neu ddau o'r fferm neu o'r lle y gwnaethpwyd.

●●● **Faint tybed o chwarelwyr fyddai'n mwynhau brechdan a menyng pot arni amser cinio yn y caban?**

Gwilym Morris Jones



Gwneud rhaffau



Gwneud rhaffau ar De Uist ddechrau'r 20ed canrif Darach Croft

●Mewn oes mwy hunangynhaliol na'r presennol...


"In these days of metal and plastic, when even expensive possessions are quickly discarded, it is not easy to appreciate how people lived when their only source of raw material was what grew around them. If they wanted a length of rope, they made it out of birch twigs or heather. Anything that could not be simply made from whatever materials could be found nearby was virtually an heirloom, but of practical rather than sentimental value." Robert Burton (2005), *Aug an Oir At the Edge - Scotland's Atlantic Oakwoods*

Mewn oes mwy hunangynhaliol na'r presennol roedd llawer o nwyddau pob dydd yn gorfod dod o'r filltir sgwar. Yng nghefn gwlad Cymru fe barhaodd hyn ymhell ar ôl cychwyn y Chwyldro Diwydiannol. Ymysg nwyddau o'r fath oedd offer clymu: cyrts, llinynnau a rhaffau bach a mawr. Dyma rhywfaint o hanes gwneud rhaffau, o lygaf y ffynnon, cofnodion dyddiaduron tyddynwyr a ffermwyr sydd wedi eu cynnwys yn Nhywyddiadur Llên Natur. Ond dechreuodd y drafodaeth ar gyfrwng cymdeithasol Cymuned Llên Natur pan rhannwyd y llun hwn gan gyfrif Albanaidd Darach Croft. Llundiau 1 a 2

●Ysgogodd hyn sawl llun o 'bren rhaffau...



Dyma Bren rhaffau sydd gen i o Rhosfawr, Pwllheli Rhian Jones



Dyma 'ffenograff' o'r cofnodion <rhaffau> yn y

Tywyddiadur [N=123]. Mae 73 o rhain yn cyfeirio'n benodol at 'gwneud' ('gwneyd', 'gwneuthur', 'gollwng', 'gyllwn', 'troi') rhaffau. Mae'n dangos cysylltiad agos rhwng misoedd y cynhaeaf gwair ac yd ond nid yn gyfangwbl chwaith (gweler cofnodion ym misoedd Rhagfyr, Ionawr, Mawrth a Mehefin. Roedd 22 cofnod yn gysylltiedig â 'glaw' (<rhaffau A glaw>).

8 Medi 1872 - methu gorphen yr helem gan y tywydd yna, jobs megys gyllwn rhaffau, gwneuthir clogynnau.

Edward Evans, Llanedren, Penfro

Roedd pob un o'r 7 cofnod gan William Phillips, Brynberian, Trefdraeth yn Saesneg, yn ychwanegol i rhain, yn cyfeirio at <ropes A raining> ym mis Medi 1887.

Yr hyn sy'n taro person yn od am y dosbarthiad hwn yw bod y rhaffau yn cael eu troi ar yr union adeg â'r cynhaeaf ei hun, sef yr union gyfnod y byddai'r angen mwyaf amdanyn nhw. Pam nad eu gwneud ar ddyddiau gwlyb y gaeaf? Oedd y deunydd yn gorfod bod yn ffres o'r cae tybed?

● Y gollwng a'r troi, y paratoi ymlaen llaw...

Roedd y deunydd ar gyfer gwneud rhaffau yn ôl y son, yn cael ei gynaeafu yn benodol. Cyfeiriwyd yn fynych at "rhaffau bach" a "rhaffau mawr".

Sonir am chwalu/cario/bydylu/nol gwair rhaffau.

..... 3 Awst 1937: Bydylu gwair i wneud rhaffau a hel glana hefo y gribin sofl.

DO Jones, Bryn Draenen, Cwm Eidda, Padog (DOJ)

1855 Gorphenwyd dyrni, tamaid ceirch oedd yn yr ysgubor, at

..... Rhaffau

Edward Evans Llanedren, Penfro (EE)

Diolch i Wil Williams am rannu'r toriad hwn o bapur bro:



Dyma lun o Ifan Ifans, Twll Clawdd, Llangristiolus a'i ferch Jane yn troi pren rhaffau i doir dâs wair. Roedd Ifan a'i wraig Elin Ifans yn ffermio yno a chanddynt un mab, John, a dwy ferch, Maggie a Jane.

Ychydig wedi tynnu'r llun tua 1920 a'r plant wedi gadael cartref penderfynodd un ohonynt sef Jane, oedd wedi priodi â bachgen o'r enw Richard Jones o'r Gaerwen, ymfudo i'r Amerig ac ni ddaeth yn ôl i fro ei mebyd o gwbl ond eto cadwodd mewn cysylltiad â llawer o'i ffrindiau fel Cassie a Jennie Glandwr, Lisi Gwaen Hiwslar a Hannah Mary, Tyn Graig ac Alice, Pen Rallt ac wrth gwrs â'r teulu yn Sir Fôn.

Ganwyd i Jane a Richard ddwy ferch Dilys a Glenys yn yr Amerig ac mae'r ddwy yn dal i gadw cysylltiad â'r teulu ac wedi bod trosodd sawl tro a chefais innau y fraint o'u cyfarfod gan y byddant yn aros hefo Dilys, eu cyfnither, yn Pigin Siw, Llangefni a byddaf yn llythyru hefo Glenys gan roi hanes y teulu iddi.

Hwyrach na chredwch, ond mae'r hen bren rhaffau ar gael o hyd ac yn cartrefu yn nhŷ Dilys yn yr Amerig. Rhyfedd o fyd ynte.

Mary Evans

O'r das wellt (ar ôl ei ddyrnu), neu o'r das wair y gollyngwyd y rhaff cychwynnol i'r trôwr yn aml:

11 Awst 1902 - Gwneyd Rhaffau ar y das wair. Cael y gwair rhaffau

W Jones, Moelfre, Aberdaron (WJ)

Fel mae'r lluniau yn dangos, cymerai ddau i wneud rheffyn, un i 'ollwng' (y tad?) ac un i 'droi' (y ferch?).

Medi 1851 - "Myfi yn Gyllwn Rhaffau a'r Rhoces yn troi [enwi'r dwy swyddogaeth gwneud rhaffau yma (gweler y prif lun) - y gollwng a'r troi - y gollwng yn waith mwy sgilgar?]"

EE

24 Awst 1922 - (Bwlchtocyn). Bwrw bore. Yn y pawns yn troi rhaffau efo Min.

John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn

Gwneud rhaffau bach (gwair), ym mhen draw Llŷn, tua 1980

Llundiau 3 a 4

Huw Erith

Y deunyddiau mwyaf cyffredin a ddefnyddid i wneud rhaffau oedd gwair a chonion o'r cynhaeaf yd ar ôl dyrnu, sef gwellt. Ond gwnaed rhaffau o ddefnyddiau eraill hefyd megis brwyn ((ll)lafwrwn) a rhawn (ceffyl), a phrynwyd rhaffau moresg yn yr 18g.

3 Hydref 1934 - (Cwm Eidda): Gwneud rhaffau hefo gwair

llafwrwn^{GPC} rhaffau traws tewion a rhaffau rhedeg meinion troi hefo y pren rhaffau.

DOJ

30 Awst 1884 - Glaw Gollwng rhaffau rhawn W Jones, Aberdaron



24 Gorfennaf 1754: *The Wind S.W. & by S. blowing high & stormy & attended ? with heavy rain all day, especially in the Evening: pd. 2s. for a Chafing dish, 6d. for a hundred of Marsh or Sandrush ropes, & 3d. for a Garden ? whetstone ?* William Bulkeley, Llanfechell

●Torri rhaffau

Roedd gorchwyl arbennig gan DO Jones, Padog, sef "torri rhaffau" (11 cofnod o'r fferm hon yn unig), er enghraifft:

14 Ebrill 1940 Yr injan ddyrnu yma heddiw. Torri rhaffau ar ben y dyrnwr. Cario pynau ceirch a haidd i'r granar, a chario dŵr i'r traction.

DO Jones

Esboniad y teulu am hyn yw: "Roedd pobl yn codi ysgubau o'r das yd i'r person ar dop y dyrnwr, hwnnw wedyn yn torri rhaffau gyda chylllell drwy dorri gwelltyn a oedd yn clymu yr ysgub. Person arall yn bwydo yr yd i'r dyrnwr"

Mrs. Brenda Jones, Rhagfyr 2020

●Gwneud pren rhaffau

Ar rai ffermydd gwnaed y pren rhaffau ar y safle:

22 Mai 1902: Gwneud pren rhaffau Gollwng rhaff rawn

WJ, Aberdaron

●Diogelu'r das

25 Medi 1933: Diwrnod yn gwneud rhaffau, dechrau rhaffu y das wair

www.rhifw.com Griffith Thomas, Ael y Bryn

12 Medi 1894 Rhoddi rhaffau ar y Das Geirch WJ Aberdaron

4 Medi 1894: Rhoddi rhaffau ar y Das Haidd WJ Aberdaron

17 Awst 1737: *The Wind W.S.W raining very hard all the Morning, & very calm, all the Evening it blew a meer storm, & rained more or less till far in the Night, my people haveing given over reaping, were employed at home, some in grinding of Malt, others were making of thatching bands, or ropes* William Bulkeley, Llanfechell, Môn

●Prynu rhaffau

Cofnodion bonheddwyr yn unig sydd ar gael i ni o'r 18g. a phrynu eu rhaffau wnaethant hwy ac yn Saesneg y'u cofnodwyd (er yn amlwg yn Gymry Cymraeg).

23 Medi 1751: 23d. *The Wind S. & by E. blowing moderate, cloudy dark weather all day ? and making frequent showers of small mizling rain morning and Evening: paid 1s. for two hundred of Newborough Ropes*

WB Llanfechell

Fesul gwrhyd (fathom) y prynnodd William Bulkeley ei raffau:

17 Awst 1756: *Pd. for 20 load of straw iis. 8d. pd. for reaping hooks 6s.? & Pd. for Sand?rush ropes is. 9d. at 6d. a hundred fathom*

WB Llanfechell

Ganrif ynghynt talodd Robert Bulkeley (Dronwy, Llanchrath, Môn) 2 geiniog am ei raffau fo: *J pd 2d for rhaffau, J made a Das of hay, the lord be praised?*

Mor hanfodol a sylfaenol i fywyd oedd y rhaff (a'i chefnodryd y gadwyn, y llinyn a'r edau) ers talwm. Diddorol mai ffordd o fwynhau cymdeithasu a chystadlu yw'r grefft bellach.



Sylwadwac ac atgofion o Gymuned Llên Natur

Pa ddau emynydd onnog oedd yn wneuthurwyr rhaffau profdestynol? (nid joci)
Dafydd Charles Caerfyrddin (brawd Thomas Charles o'r Bala), a'i fab oedd yr un enw a'i dad. Roedd ganddynt ffatri raffau yng Nghaerfyrddin. Un tro aeth hi ar dan!
Roedd angen gwair brwynog i wneud rhaffau bach, bum yn troi'r teclyn, a fy rhad yn bwydo'r rhaff, ac yn bwydo fy hunan ar achlysuron prin. Byddem hefyd yn gwneud rhaffau efo llinyn belar, efo'r un teclyn, a'r bwydwr yn bwydo dau llinyn ar y tro, felly yr oedd y rhaff yn cael ei "eillio"
How Erth
This is me in the white shirt making ropes on Trefor beach in 1965


Mewn oes sydd â chynifer o ffordd o ddatgadu dau wrthrych ynghyd efallai ei bod hi'n anodd i ni lwyro gwerthfawrogi mor hanfodol a sylfaenol i fywyd oedd y rhaff (a'i chefnodryd y gadwyn, y llinyn a'r edau). Diddorol mai ffordd o fwynhau cymdeithasu a chystadlu yw'r grefft bellach
Gwilym Edwards

Llynnoedd Cofid19


Yn ystod yr heth byr diweddar ddechrau mis Ionawr 2021, argymhellwyd mai gweithgaredd gwerthchweil ynghanol y lockdown caeth oedd mewn grym ar y pryd fyddai tynnu llun a chofnodi 'estyniad unrhyw rew ar eich llyn lleol, boed yn llyn mawr neu bach'. Dyma rai o'r cofnodion ysgrifenedig neu ddelweddol, hen neu diweddar, enghreifftiol.

Rhew tua 90%: Llyn Llugin (Gelli Gain) wedi rhewi drosto 31/12/09. Llyn dŵr gwersyll milwrol Traws yn wreiddiol, wedyn bu iddo gyflenwi dŵr i'r pentre ond oedd ei natur mawnog yn creu trafferth i'r gwllâu ffilto. Clywais am lwynog yn croesi'r rhew unwaith gyda cŵn hela ar ei ôl. Oedd y rhew yn rhy dennau i ddal pwysau'r cŵn, felly troi yn ôl bu rhaid iddynt, tra a'th y Blewyn Coch yn ei flaen drosto a diflannu dros dop y bryn!

Keith O'Brien



Rhew bron 100% ond yn rhy denau i sglefrio: Daeth hwn gan Eirlys Griffiths o gwmpas yr 8 Ionawr 2021



Rhew 100%? Ac yn gallu cymryd pwysau 70 o bobl, iot-rhew a cheffyl a throl. Na, dydi gaeafau ddim fel oedden nhw! Cerdyn post o Heth Fawr 1895

ON LLANBERIS LAKE DURING THE GREAT FROST 1895-6.

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

Rheoli'r blodau melyn



Ar y 29 Awst cofnododd John Henry Hughes Bronllwyd Bach, Botwnnog yn ei ddyddiadur am 1950 iddo dorri blodau melyn: "torri blodau melyn a torri yd yn cae Robert Ifan hefor bladyr bore. torri hefo engian prynhawn rhwmo ar ôl te." Y 'blodau melyn' mae'n debyg oedd llysiâu'r gingroen ell. Enwau eraill arni yw Creulys lago, Carnedd Felen Wryw, 'Cowmon' Bach Melyn, Eirin y Ci, Greulys, Greulys Felen Wryw, Llys lago, Llys Jacob, Llys y Gingroen, Llysiâu lago, Llysiâu'r Gingroen, Llysiâu'r Ysgyfarnog, Penfelen, Ragwort, Troed y Frân, *Senecio jacobaea*, *common ragwort*. planhigyn sydd yn goroesi.

Y Tywyddiadur (llennatur.cymru)

(Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru - Y Tywyddiadur: llennatur.cymru)

Aredig yw'r ffordd orau o ddelio gyda phla mawr. Bu'n arfer yn amlwg i John Henry **dorri blodau melyn** yn rheolaidd yn 1950 (ac mae'n debyg mewn blynyddoedd eraill hefyd). Mae'n debyg mai oherwydd yr alcaloidau pyrrolisidaidd gwenwynig (ee. *senecionine*, *jaconine* ayb) y teimlid bod rhaid rheoli hwn er na ddaeth gorfodaeth gyfreithiol i wneud hynny tan 1959

(Cooper, MR ac eraill, 1984)

Mae sawl dewis gan ffermwr i reoli'r planhigyn hwn (er y dylid cofio bod peillwyr yn hoff iawn o'r blodau, a'r gwyfyn penfelen gyda'i lindys du a melyn yn gwbl ddibynol arno).

Torri, fel oedd John Henry yn ei wneud, oedd un ffordd o reoli plâu cymharol ysgafn Gwnaeth hynny ar 12 o ddyddiau rhwng 23 Mehefin a 2 Medi 1950, y rhan fwyaf ym mis Mehefin (6 gwaith) a mis Awst (5 gwaith). Roedd misoedd Mehefin ac Awst y flwyddyn honno yn niwlog, oer a thamp.

...eu tynnu o'u gwraidd yw ffordd arall. Tynnu'r 'blodau melyn' o'u gwraidd a wnai Gareth Rowlands a DO Jones (21 Gorffennaf 1989: Bodorgan, Môn) a DO Jones (18 Hydref 1947 - dyddiad hwyr: Padog).

Argymhellwyd yn 1984 (Cooper) bod chwistrellu ag MCPA a 2,4-D yn weddol effeithiol ond drud a pheryglus o ran iechyd ac efallai i'r amgylchedd. Mae'r cemegolion yn gallu codi lefelau'r alcaloidau gwenwynig.

Simdde ym Mhen Llŷn yn dodwy 'wyau'!



Powliodd hon i lawr y simdda diwrnod o'r blaen. Wedi cael rhai llai o'r blaen ond mae hon tua maint pêl golff. Mae fel plisgyn tenau ac yn wag tu mewn. Dim ond mwg tân coed sy'n mynd

i fyny'r simdda yma. Oes gennych unryw eglurhad am sut y cafodd ei ffurfio a beth yn union ydi'r cynnwys? (Caled ond brau a thenau, a'r tu fewn yn sgleiniog ddu fel y gwelir trwy'r twll yn un o'r llunia.)

Morwen Jones

Swigan creosote buaswn i yn tybio os yw coed tan ddim digon sych mae yn cynhyrchu creosote yn y simdde a pan fydd y simdde yn mynd yn boeth fydd y creosote sydd yn dew yn byblo ac yn hel llwch or simdde boeth ar pwysau or llwch fydd yn ei dynu i lawr efallai

David John Williams



King Alfred's cakes? *David Thomas*


Ti di sbira ar y to? Efallai mae 'na ais crwm fan yn gwerthu chocolate scoops yma Rhisiart Ap Ewilym



Oes posibl mai Basidiomycota (puff ball yn Saesneg) wedi pŷdru yw hyn? *Llŷn Llwynn*

Ffêc Niws!

Peli ysbyrdion oedda nhw yn ei galw erstatwm lol *Dei Jones*



Llun Luned Meredydd

Is it a wasp's nest? (Morwen Jones: na, mae fel pêl fach galed ond yn frau (fragile). Mae'r tu mewn yn ddu ac yn sgleiniog) *Esther Stubbs*



Wy? Eifion Cullen


Mi gawson ni dywydd oer...



Nant Tyddyn yr Yn, y ffin rhwng plwyfi Traws a Maentwrog
Keith O'Brien 1 Ionawr 2021



Y tair chwaer ger Llansannan
Rhys Hiraethog 11 Ionawr 2021



Cei Connah
Dafydd Morris 10 Ionawr 2021



Mwyalchen ifanc , Gerlan, Bethesda
Mark Briggs 11 Ionawr 2021



Llansannan
Dys Griffiths 9 Ionawr 2021



Tan Rallt
Eirlys Ruhi Edwards-Behi 9 Ionawr 2021



Gillian Brown
Waunfawr 9 Ionawr 2021



● **Llinos Griffin** 9 Ionawr 2021

Clwb y Llygaid Bach



Adnabod Caneuon Adar yr Afonydd a'r Lllynoedd 1

Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd

1

Aderyn dŵr gwyn anferth



Pig oren
Gwddf
yn plygu


Lwmp du
ar y talcen



4

Gwddf syth i fyny
a chynffon hir

Pig melyn
a blaen du



2

Pig coch â
blaen melyn

Cefn
crwn



Pen a bol
llwyd-ddu



5

Cefn brown
a smotiau
tywll

Aderyn swnllyd!



Pig hir coch
Coesau
hir
Rhannau isaf
lliw tywod



3

Rhesen wyrdd
o'i llygad

Pig a choesau
tywll



6

Cefn crwn di-gynffon

Pig a
thalcen
gwyn
Traed mawr



Enw'r Aderyn

Pa Rif?

Pwynt

lâr ddŵr

15

Cwtiar

10

Alarch ddof

15

Enw'r Aderyn

Pa Rif?

Pwynt

Corhwyaden

15

Alarch y gogledd

10

Rhegen y dŵr

25